**Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i'r ymgynghoriad ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg – y fframwaith ddeddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg Gymraeg.**

**Cwestiwn 1: Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bedwaredd Senedd argymhellion yn ei adroddiad ar 'Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg'. A yw'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi gwella ers hynny?**

Heb os, mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi gwella o'r drefn oedd yn bodoli'n flaenorol. Mae symud at gynlluniau mwy hir dymor a'r gofyn i awdurdodau lleol fynd ati yn rhagweithiol i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â thargedau penodol yn newidiadau sylweddol ac arwyddocaol. Mae'n rhy gynnar o lawer, fodd bynnag, i wybod ag unrhyw sicrwydd beth fydd effaith y newidiadau deddfwriaethol hyn ar ddatblygiad addysg Cymraeg yn y tymor hwy.

Ddiwedd 2021 fe wnaethom ddarparu adborth manwl ar gynlluniau drafft pob awdurdod lleol. Er bod gwendidau amlwg yn nifer o'r cynlluniau drafft bryd hynny (dylem nodi na welsom y cynlluniau terfynol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Ionawr 2022), ein casgliad cyffredinol ni oedd bod y fframwaith CSCA newydd wedi arwain at gynlluniau strategol llawer mwy uchelgeisiol a phellgyrhaeddol. Un o'r negeseuon mwyaf cadarnhaol sy'n deillio o'r cynlluniau strategol yw'r dystiolaeth fod addysg cyfrwng Cymraeg yn ffynnu pan fo awdurdodau lleol yn cynllunio yn ofalus, ac yn sefydlu darpariaeth hygyrch ac o safon. Mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn bodoli ar hyd ac ar led Cymru, ac mae'n galonogol gweld mwy o awdurdodau lleol yn cynllunio'n rhagweithiol er mwyn galluogi mwy o rieni i ddewis addysg Cymraeg i'w plant. Er y negeseuon cadarnhaol hyn, mae dal peth ffordd i fynd er mwyn sicrhau bod holl awdurdodau lleol yn cydio ym meddylfryd y fframwaith CSCA newydd, ac yn bwysicach fyth bod holl awdurdodau lleol yn gweithredu eu cynlluniau yn llawn dros y ddeng mlynedd nesaf.

Er bod y fframwaith CSCA newydd yn welliant, rydym yn glir ein barn bod angen cryfhau ymhellach sail ddeddfwriaethol cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bydd ein hymateb isod yn amlygu'r gwendidau a'r bylchau sy'n parhau yn y gyfundrefn cynllunio ar hyn o bryd, yn ogystal â sut gellid cryfhau ac ategu'r fframwaith CSCA drwy gyflwyno deddfwriaeth a pholisïau eraill.

**Cwestiwn 2: I ba raddau y mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y canlyniadau a'r targedau a nodir yn Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg – Cymraeg 2050?**

***Yr angen i gyflwyno deddfwriaeth a pholisïau pellach er mwyn cryfhau a chefnogi'r CSCA***

Y rheswm dros gyflwyno newidiadau i'r fframwaith CSCA oedd y dystiolaeth ddiamwys nad oedd y gyfundrefn flaenorol yn ddigonol er mwyn cyflawni targedau Cymraeg 2050.

Mae'n llawer rhy gynnar i ddod i unrhyw gasgliadau pendant ynghylch y graddau mae'r fframwaith newydd am gyfrannu at ganlyniadau a thargedau strategaeth Cymraeg 2050. Yn naturiol, fe fydd rhai blynyddoedd eto tan bydd modd edrych ar ddata ac ystadegau gwrthrychol er mwyn dod i gasgliadau pendant i'r perwyl hyn. Rhaid cofio hefyd mai un rhan o'r darlun yw'r CSCA, a bod angen cydnabod ac ystyried effaith y gwaith ehangach sydd eisoes yn digwydd mewn meysydd cysylltiedig.

Er nad ydym felly yn gwybod beth yn union fydd effaith y fframwaith CSCA newydd ar dargedau Cymraeg 2050, rydym yn glir ein barn bod angen cryfhau ymhellach elfennau o ddeddfwriaeth a pholisi sy'n cefnogi'r CSCA a thwf addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Fel y manylwn isod, mae'n amlwg i ni na fydd y fframwaith CSCA fel mae'n sefyll yn ddigonol er mwyn cyflawni canlyniadau a thargedau heriol Cymraeg 2050. Nid yw hyn yn feirniadaeth o'r gwaith a gafodd ei wneud ar newid y fframwaith CSCA; yn wir roedd cydnabyddiaeth ar y pryd bod mwy o waith i'w wneud er mwyn cryfhau sail ddeddfwriaethol a pholisi cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

***Craffu ar brif amcanion a thargedau addysg strategaeth Cymraeg 2050***

Er mwyn trafod gwendidau a bylchau'r gyfundrefn cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg mae angen ystyried yn ofalus beth yn union yw amcanion strategaeth Cymraeg 2050 mewn perthynas ag addysg.

Yn amlwg, mae strategaeth Cymraeg 2050 a chynlluniau gweithredu cysylltiedig yn cynnwys ystod o amcanion a thargedau gwahanol. Er hyn, mae tri phrif amcan/targed sylfaenol ynghylch datblygiad y sector addysg dros y 30 mlynedd nesaf:

- Cynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o 22% (7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30% (10,500 o ddysgwyr) erbyn 2030, ac yna i 40% (14,000 o ddysgwyr) erbyn 2050.

- Gweddnewid sut rydym yn addysgu Cymraeg i ddysgwyr yn y sector cyfrwng Saesneg er mwyn i 50% o'r dysgwyr hynny ddweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol.

- O gyflawni'r ddau amcan uchod bydd o leiaf 70% o holl ddysgwyr Cymru yn gallu dweud erbyn 2050 eu bod yn siarad Cymraeg.

Mae'r targed cyntaf yn eglur ac yn hawdd i'w fesur, sef nifer/canran y plant 7 oed sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r dasg felly hefyd yn eglur, sef cynyddu niferoedd/canran o blant addysg gynradd sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ail darged yn fwy annelwig. Mae dau reswm dros hyn. Yn gyntaf, nid yw'n hollol eglur sut y bwriedir mesur cynnydd yn erbyn y targed hwn nac ychwaith beth yw'r waelodlin ar hyn o bryd. Rydym yn cymryd mai drwy fesur nifer siaradwyr Cymraeg mewn arolygon mwy cyffredinol (e.e. y cyfrifiad) y bydd modd craffu ar gyflawniad y targed hwn. Yn ail, nid yw'n hollol eglur sut y bwriedir cyflawni'r targed hwn. Ai'r bwriad yw cyflwyno newidiadau sylweddol i'r ffordd mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu a'i defnyddio yn holl ysgolion cyfrwng Saesneg Cymru? Ynteu a yw'r targed hwn hefyd yn ymwneud â phroses o symud nifer helaeth o ysgolion sydd ar hyn o bryd yn dilyn model addysg cyfrwng Saesneg at fodel addysg ddwyieithog? Er bod y ddwy strategaeth uchod yn llifo mewn i'w gilydd i raddau, nid yw'n glir i ni ai'r bwriad gwirioneddol yw gweddnewid y sector cyfrwng Saesneg, ynteu leihau'r sector cyfrwng Saesneg, drwy gynyddu'r nifer o ysgolion sy'n symud ar hyd y continwwm ieithyddol tuag at fod yn ysgolion Cymraeg yn unol â'r [Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.](#) Mae'n ddigon posib wrth gwrs mai cyfuniad o'r ddwy strategaeth uchod sydd ei angen, ond mae angen i'r Llywodraeth fod yn glir ynghylch hyn  er mwyn cynllunio i wireddu'r bwriad.

Mae'r trydydd targed i bob pwrpas yn cyfuno'r ddau amcan blaenorol. Er enghraifft, os mai 35,000 o ddisgyblion yw maint cohort blynyddol yng Nghymru, y targed yw y bydd 14,000 (40%) yn mynychu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg. O'r 21,000 sy'n weddill, bydd 50% o'r rhain (10,500) yn siaradwyr Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o 24,500 (sef 70% o'r cohort blynyddol) yn siaradwyr Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol. Mae'r dadansoddiad uchod yn gorsymleiddio sefyllfa sydd ychydig yn fwy cymhleth mewn gwirionedd. Er bod modd rhannu cyfraniad y sector cyfrwng Cymraeg a'r sector nad yw'n gyfrwng Cymraeg yn weddol rwydd yn yr oedran cynradd, nid yw hyn mor amlwg yn y sector uwchradd. Bydd nifer o'r disgyblion sydd wedi derbyn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo i fodelau amrywiol o addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (categorïau 3p, 3 a 2 yn y drefn gategoreiddio newydd).

Yn sgil y dadansoddiad uchod mae'n ymddangos bod 3 prif strategaeth er mwyn cyflawni prif dargedau addysg Cymraeg 2050:

1. **Sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd, ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd eisoes yn bodoli:** Mae hyn yn arbennig o wir mewn

perthynas ag addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, lle mae mwy o botensial i sefydlu darpariaeth newydd yn sgil ad-drefnu ysgolion ac ati.

2. **Symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol:** Mae hyn yn cynnwys symud ysgolion dwyieithog i fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, symud ysgolion dwyieithog i fyny'r continwwm (cynnig cyfran uwch o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg a sicrhau bod cyfran uwch o'r disgyblion yn manteisio ar y ddarpariaeth hon), a symud ysgolion cyfrwng Saesneg i fod yn ysgolion dwyieithog. Yn achos ysgolion cynradd gallasai'r broses o symud ar hyd y continwwm ieithyddol ddigwydd ar sail ffrwd (yn hytrach nag ysgol gyfan). Er nad yw'r categorïau uwchradd yn cynnwys cysyniad o ffrydiau gwahanol, mae'n debygol mai dyma fydd yn digwydd yn ymarferol (hynny yw, bod ysgolion cyfrwng Saesneg yn cynnig dosbarth/ffrwd ddwyieithog i gychwyn). Mae angen pwysleisio pa mor allweddol fydd y broses yma o symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol i gyflawni targedau addysg 2050.

3. **Codi'r disgwyliadau ar holl ysgolion cyfrwng Saesneg Cymru o ran addysgu a defnyddio'r Gymraeg:** Mae hyn eisoes wedi cychwyn fel rhan o gyflwyno'r cwricwlwm newydd, ond mae'n anorfod y bydd angen codi'r disgwyliadau yn sylweddol bellach os am gyflawni targedau heriol ynghylch cyfraniad y sector cyfrwng Saesneg.

Wrth ystyried cynnwys posib Bil Addysg Gymraeg arfaethedig, mae'n hanfodol ystyried pa mor gadarn yw'r fframweithiau presennol (gan gynnwys y CSCA) wrth hwyluso cyflawni'r 3 thasg uchod.

### *Y graddau mae'r CSCA yn cyfrannu at yr amcanion a'r targedau uchod*

O'r tair strategaeth uchod, dim ond yn achos y cyntaf mae gennym hyder bod strategaeth a threfn gadarn ac effeithiol yn bodoli. Yn ein barn ni, mae'r fframwaith CSCA newydd yn gosod trefn gynllunio effeithiol ar gyfer sefydlu addysg cyfrwng Cymraeg newydd, ac ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg presennol. Mae yna dargedau eglur wedi'u cytuno rhwng y Llywodraeth a'r awdurdodau lleol ac mae gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno cynlluniau manwl am sut byddant yn cyflawni'r targedau hyn dros y ddeng mlynedd nesaf. Er bod mwy y gellid ei wneud er mwyn cefnogi'r gwaith hwn ymhellach (gweler ein hymateb i gwestiwn 4), mae'r rhan hon o'r strategaeth yn eglur ac yn gadarn ar y cyfan. Yn amlwg, ni fydd y gwaith o gyflawni'r targedau hyn yn hawdd o bell ffordd, ond credwn fod cytundeb a dealltwriaeth gyffredinol ymysg holl rhanddeiliaid perthnasol ynghylch beth yw'r nod, a sut mae modd cyflawni hyn.

Mewn perthynas â'r ail strategaeth o symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol, nid ydym o'r farn fod y trefniadau presennol yn ddigonol er mwyn cyflawni'r math o gynnydd sydd yn cael ei ragweld yn strategaeth Cymraeg 2050. Credwn felly fod hwn yn un maes amlwg lle mae angen rhagor o waith a chefnogaeth ar awdurdodau lleol ac ysgolion.

Mae mwyafrif cynlluniau strategol awdurdodau lleol yn trafod y bwriad o symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol. Dylid hefyd nodi fod y canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith yn gosod fframwaith mwy eglur ar gyfer cyflawni hyn. Er hyn, credwn fod llawer o waith i’w wneud er mwyn cefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion i gyflawni’r dasg heriol hon, ac i hwyluso’r holl broses o symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol. Nid tasg hawdd fydd hyn, ac ein pryder ni yw na fydd gweledigaeth a bwriadau’r awdurdodau lleol yn dwyn ffrwyth oni bai bod y Llywodraeth yn ystyried yn ofalus ffyrdd o gefnogi a hwyluso’r holl broses. Mae’n ddadlennol bod amryw o awdurdodau lleol wedi cynnwys ymrwymiadau i symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol ers degawdau bellach yn y CSCAau, a fawr ddim cynnydd wedi digwydd ym mwyafrif yr achosion hyn. Er mwyn osgoi'r sefyllfa yma mae angen strategaeth feiddgar a phwrpasol sy’n braenaru’r tir ar gyfer galluogi awdurdodau lleol ac ysgolion i symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol. Mae ein hymateb i gwestiynau 3 a 4 yr ymgynghoriad yn awgrymu’r mathau o bolisïau a newidiadau i ddeddfwriaeth sydd â’r potensial i gryfhau’n sylweddol yr elfen allweddol hon o’r strategaeth, a thrwy hynny gryfhau’n sylweddol yr agwedd hon o’r CSCA.

Mewn perthynas â’r drydedd strategaeth ynghylch cyfraniad y sector cyfrwng Saesneg, nid yw’n glir i ni hyd yma beth yn union yw’r strategaeth. Dylid nodi fod y taflwybr i’r miliwn yn rhagweld bod gan y sector cyfrwng Saesneg gyfraniad allweddol i’w wneud. Yn ôl y model ystadegol, erbyn 2050 bydd ysgolion cyfrwng Saesneg yn cyfrannu 10,500 o siaradwyr Cymraeg fesul blwyddyn ysgol, o’i gymharu â’r 14,000 fydd yn deillio o’r sector cyfrwng Cymraeg (a dwyieithog yn yr uwchradd).

Mae’r CSCAau yn trafod y defnydd o’r Gymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg, yn benodol mewn perthynas â’r cwricwlwm newydd i Gymru, a hefyd mewn perthynas â’r siarter iaith. Er hyn nid yw’r math o ymrwymiadau sy’n cael eu gwneud, ar y cyfan, yn cyfateb i’r her anferthol o sicrhau bod cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy’n datblygu’n siaradwyr Cymraeg.

Mae’r targed hwn ynghylch cyfraniad y sector cyfrwng Saesneg gan amlaf yn cael ei drafod yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd. Rhan bwysig o gyflwyno’r cwricwlwm newydd oedd codi’r disgwyliadau ar ysgolion cyfrwng Saesneg o safbwynt y Gymraeg, gan gynnwys diddymu'r cysyniad a’r rhaglen addysgu Cymraeg ail-iaith a chyflwyno un continwwm ar gyfer addysgu’r Gymraeg. Mae’r Comisiynydd ar sawl achlysur wedi datgan pryderon ynghylch y graddau mae’r cwricwlwm newydd wir yn cyflawni’r amcanion hyn. Nid yw’n ymddangos i ni fod unrhyw strategaeth eglur a chadarn yn bodoli er mwyn cyflawni hyn. Mae’n deg dweud felly nad yw’r Llywodraeth eto wedi egluro gydag unrhyw argyhoeddiad sut y mae’n bwriadu cyrraedd sefyllfa lle mae 50% o’r dysgwyr hynny sydd wedi mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg yn dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol .

Fel rydym eisoes wedi’i nodi, efallai mai rhan o’r ateb ydi y bydd nifer o ysgolion sydd ar hyn o bryd yn cynnig addysg cyfrwng Saesneg yn cychwyn ar y daith ar hyd y continwwm ieithyddol drwy gynnig cwricwlwm rhannol dwyieithog i rai neu eu holl

ddisgyblion. Fel rydym yn ymhelaethu arno yn ein hymateb i gwestiwn 4, efallai mai un ffordd effeithiol o symbylu mwy o ysgolion i wneud hyn yw drwy fod yn fwy eglur ac uchelgeisiol wrth ragnodi'r ddarpariaeth Gymraeg y mae angen i bob ysgol ei darparu. Hynny yw, bod gofynion clir a chadarn ar bob ysgol yng Nghymru o safbwynt y Gymraeg, a bod fframwaith eglur ar gyfer codi'r disgwyliadau hyn yn raddol dros gyfnod o amser. Yn ein barn ni nid yw'r cwricwlwm fel mae'n sefyll yn darparu'r eglurder na'r uchelgais angenrheidiol.

I grynhoi ein hymateb i gwestiwn 2 felly, mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gwneud cyfraniad pwysig at ganlyniadau a thargedau Strategaeth Cymraeg 2050. Er hyn, mae angen cryfhau yn sylweddol elfennau cysylltiedig o'r gyfundrefn cynllunio addysg Cymraeg er mwyn ategu'r fframwaith CSCA, a thrwy hynny gyflawni canlyniadau a thargedau Cymraeg 2050. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â'r gwaith o symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol, a hefyd gyfraniad y sector cyfrwng Saesneg.

**Cwestiwn 3: Sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i newidiadau i ganllawiau ar gategorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac a ydynt yn bodloni uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion dwy ffrwd?**

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth na thystiolaeth o sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i'r canllawiau newydd. Byddem yn dychmygu ei bod yn rhy gynnar i ddeall yn llawn sut mae awdurdodau lleol yn ymateb, a bod y mwyafrif yng nghanol y gwaith o geisio dehongli a gweithredu'r gofynion newydd. Mae'r gyfundrefn newydd am gymryd rhywfaint o amser i wreiddio, ac mae'n debyg ein bod yn y cyfnod hwnnw rhwng dau fframwaith ar hyn o bryd.

Roedd cyhoeddi canllawiau newydd ar gategoreiddio ysgolion yn gam pwysig o safbwynt datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Er mwyn i'r canllawiau newydd fodloni uchelgais Llywodraeth Cymru, credwn fod dau fater hanfodol angen sylw:

1. **Materion ymarferol ynghylch gweithredu'r drefn newydd:** er bod canllawiau manwl eisoes wedi'u cyhoeddi, bydd angen cyfarwyddyd a chefnogaeth bellach ar awdurdodau lleol wrth weithredu'r drefn newydd. Er enghraifft, mae'r categorïau uwchradd yn eithaf cymhleth o ran eu bod yn seiliedig ar ganran y cwricwlwm sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, canran y gweithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â chanran disgyblion sy'n astudio isafswm o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae yna nifer eang iawn o newidynnau perthnasol yma o ran sut mae dehongli a chyfrifo'r canrannau sy'n sail i'r categorïau hyn. Mae angen methodoleg eglur a chyson er mwyn osgoi anghysondeb a diffyg tryloywder mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ysgolion. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau eglurder i rieni a disgyblion. Rhan allweddol o hyn fydd sicrhau bod

awdurdodau lleol ac ysgolion yn cyhoeddi gwybodaeth eglur a manwl i rieni ynghylch darpariaeth ieithyddol yr ysgol.

Un o’r prif resymau dros gyflwyno’r canllawiau newydd oedd na fu i’r categorïau blaenorol gael eu dehongli yn gywir nac yn gyson, ac roedd diffygion o ran y broses o fonitro manwl er mwyn sicrhau bod darpariaeth ysgolion yn cyd-fynd â’r categori honedig. Canlyniad hyn oedd dryswch a diffyg eglurder i rieni, yn ogystal â diffyg cynllunio effeithiol ar lefel ysgolion ac awdurdodau lleol. Nid oes llawer o fanylder hyd yma ynghylch beth fydd y trefniadau monitro ac atebolrwydd newydd. Er y bydd gwaith arolygu Estyn a hefyd y fframwaith gwerthuso, gwella ac atebolrwydd yn berthnasol yn y cyd-destun hwn, credwn y bydd angen datblygu proses fonitro benodol a phwrpasol yn enwedig yn ystod y cyfnod cychwynnol o symud at y fframwaith newydd.

2. **Y broses cynllunio a symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol:** Mae’n amlwg fod y fframwaith gategoreiddio newydd wedi’i lunio at bwrpas hwyluso symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol (yn enwedig ysgolion uwchradd). Er hyn nid ydym o’r farn fod dealltwriaeth gyson o beth yn union y mae hyn yn ei olygu, a sut mae cyflawni hyn mewn ffordd effeithiol. Credwn felly fod angen datblygu dealltwriaeth fwy eglur ynghylch y broses o symud ysgol ar hyd continwwm ieithyddol. Hynny yw, mae angen rhyw fath o fodel ar gyfer ysgolion mewn categorïau gwahanol, sy’n mapio'r broses o symud ar hyd y continwwm gam wrth gam. Ochr yn ochr â darparu’r eglurder uchod, byddai modd ystyried yn ofalus pa newidiadau deddfwriaethol a pholisi fyddai’n cefnogi a hwyluso’r broses hwn (gweler ein hymateb i gwestiwn 4 am fwy o fanylder ynghylch hyn).

   Un peth sy’n amlwg i ni yw bod *Adroddiad yr adolygiad annibynnol i ail-ddiffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg* yn cynnwys gweledigaeth fwy pellgyrhaeddol na dim ond cynnig categorïau newydd. O ddarllen yr adroddiad yn ofalus, mae’n amlwg ei fod yn cynnig y categorïau newydd o fewn cyfundrefn statudol a strategol ehangach. Er enghraifft, mae’r adroddiad yn pwysleisio’r angen am sail statudol i’r categorïau, yr angen i edrych eto ar ofynion ymgynghori yn unol a gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a’r Cod Trefniadaeth Ysgolion, yr angen am drefniadau monitro ac atebolrwydd mwy cadarn, ac hefyd yn cyfeirio at ffyrdd penodol o hwyluso’r broses o symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol. Dim ond un rhan yw’r diffiniadau eu hunain, ac mae angen ystyried yr holl faterion cysylltiedig sy’n allweddol er mwyn i’r gyfundrefn ffynnu. Nid yw’r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth wir yn mynd i’r afael â’r materion cysylltiedig hyn sydd yn hollbwysig er mwyn i’r categorïau newydd lwyddo. Yn ein barn ni felly mae’r Bil Addysg Gymraeg arfaethedig yn gyfle amlwg i ddatblygu’r gyfundrefn cynllunio fwy eang hon, ac i’w osod ar sail statudol. Drwy hyn byddai modd cryfhau’n sylweddol yr holl broses o symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol.

**Cwestiwn 4: Pa heriau a fydd yn codi o ran cynllunio a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cyn Bil Addysg Gymraeg arfaethedig?**

Fel mae ein hymateb i'r cwestiynau blaenorol yn ei amlygu, mae llawer o heriau o ran cynllunio a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'n bwysig cydnabod, fodd bynnag, yr holl ddatblygiadau cadarnhaol sydd wedi cymryd lle dros y blynyddoedd diwethaf. Credwn yn gryf felly fod angen ystyried y Bil Addysg Gymraeg arfaethedig fel cyfle euraid i adeiladu ar y gwaith hwn ac i gryfhau elfennau o'r strategaeth sydd angen sylw.

Yn y cyd-destun hwn byddem yn annog y Llywodraeth i sicrhau bod y Bil yn adlewyrchu maint uchelgais Cymraeg 2050. Fel y gwnaethom ei nodi yn ein hadroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg 2016-20, os yw'r Llywodraeth o ddifri am gyflawni targedau Cymraeg 2050 yna ni ellir parhau i fuddsoddi a gweithredu yn yr un modd ag a wnaed yn yr ugain mlynedd diwethaf. Mae angen mynd ymhellach drwy gyflwyno polisïau a deddfwriaeth beiddgar sydd wir am arwain at y math o gynnydd sy'n cael ei ragweld yn strategaeth Cymraeg 2050. Ni fydd gwneud mân addasiadau i'r gyfundrefn bresennol yn arwain at y twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sy'n gwbl ganolog i strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Un egwyddor bwysig sy'n sail i'n hawgrymiadau isod yw bod rhaid i'r Bil hwn fynd ymhellach na dim ond gosod targedau, a chanolbwyntio ar hwyluso cyflawniad y targedau hynny.

Bydd cyfleoedd eto i drafod mewn mwy o fanylder gynnwys posibl Bil Addysg Gymraeg. Mae ystod eang o faterion sy'n teilyngu sylw, a byddai trafod y rhain oll y tu hwnt i gwmpas yr ymateb hwn. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â'r cyfnod cyn-ysgol ac ôl-16 sy'n teilyngu cryn sylw gan eu bod yn hollbwysig wrth feithrin siaradwyr Cymraeg newydd a sicrhau parhad mewn sgiliau Cymraeg o'r sector statudol i'r gweithle. Mae'r awgrymiadau isod felly yn canolbwyntio ar y materion sydd fwyaf perthnasol i'r fframwaith CSCA a'r sector statudol, a thrwy hynny i gyflawniad prif dargedau addysg Gymraeg 2050.

Wrth ystyried deddfu yn rhai o'r meysydd isod, dylid pwysleisio y bydd angen hefyd newidiadau o safbwynt polisi a strategaeth. Dim ond un rhan o'r darlun yw deddfu. Yn wir, efallai mewn rhai meysydd nad deddfu sy'n briodol, ond yn hytrach newidiadau i bolisi, strategaeth neu gyllideb.

1. **Codi statws ymrwymiadau a thargedau addysg Cymraeg 2050:** Bydd cyflwyno'r Bil ynddo'i hun yn codi statws gweledigaeth y Llywodraeth, ond mae'n bosib y gallai'r Bil osod mewn statud ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'n debyg bod sawl ffordd o wneud hyn, er enghraifft, drwy osod dyletswydd ar weinidogion Cymru i annog ac ehangu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, neu drwy alluogi Gweinidogion Cymru osod targedau ynghylch ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Dylid nodi nad yw'r targedau sy'n cael eu darparu ar gyfer y CSCAau ag unrhyw sail statudol ar hyn o bryd.

2. **Mewn perthynas â thargedau addysg Cymraeg 2050, cryfhau prosesau cyllido a chymeradwyo prosiectau ad-drefnu addysg:** er ein bod o'r farn bod y CSCA yn fframwaith effeithiol ar gyfer sefydlu ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, un broblem yw bod cynlluniau awdurdodau lleol gan amlaf yn ddibynnol ar dderbyn arian cyfalaf gan y Llywodraeth. Nid yw awdurdodau yn gallu yn ymrwymo'n llwyr i ddatblygiadau yn y dyfodol gan eu bod yn dibynnu ar dderbyn cymeradwyaeth a chyllid cyfalaf y Llywodraeth.

   Ar hyn o bryd mae economi gymysg yn bodoli lle mae awdurdodau lleol yn manteisio ar grantiau cyfalaf addysg cyfrwng Cymraeg penodol ac achlysurol, Rhaglen Gyfalaf Ysgolion 21ain Ganrif, a chyfleoedd drwy brosiectau adeiladu tai a'r Cynlluniau Datblygu Lleol. Er bod y drefn yma yn gweithio i raddau credwn fod gwerth ystyried datblygu trefniadau mwy cydlynus a sefydlog er mwyn cefnogi twf addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Yn hytrach na chyflwyno potiau arian cyfalaf achlysurol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, credwn fod potensial i gydlynu'r Rhaglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r CSCA mewn ffordd fwy effeithiol ac uniongyrchol. Mae hyn yn wir o safbwynt gwaith cynllunio awdurdodau lleol a phrosesau dyfarnu'r Llywodraeth. Y pwynt syml ydi bod angen i dargedau Llywodraeth Cymru a'r CSCAau fod yn rhan ganolog o'r holl broses o ymgeisio a chymeradwyo prosiectau ad-drefnu addysg yn fwy cyffredinol. Drwy wneud hyn byddai modd sicrhau mewn ffordd llawer mwy effeithiol ac uniongyrchol bod arian y Llywodraeth yn hwyluso cyflawniad y CSCAau. Byddai hyn hefyd yn ffordd o sicrhau ymhellach nad oes penderfyniadau cyllido yn cael eu gwneud sydd â'r canlyniad anfwriadol o danseilio datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

3. **Gosod diffiniadau a chategorïau ieithyddol ysgolion ar sail statudol:** mae'n bosib mai dyma'r maes y mae'r potensial mwyaf o ran deddfu. Gallai'r gwaith hwn gwmpasu ystod eang o faterion cysylltiedig:

   - *Gosod y diffiniadau a'r categorïau eu hunain ar sail statudol:* Mae'n debyg mai'r ffordd orau o wneud hyn fyddai cyfeirio at y drefn gategoreiddio ar flaen y Bil a chynnwys y manylder mewn rheoliadau. Mantais hyn fyddai galluogi mwy o hyblygrwydd i addasu a diwygio'r categorïau yn y dyfodol pe bai angen.

   - *Gosod trefniadau atebolrwydd mwy cadarn:* gan gynnwys gofynion adrodd a chyhoeddi gwybodaeth, a hefyd gwaith monitro allanol

   - *Cyhoeddi canllawiau statudol ar symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol:* Gallai'r canllawiau hyn egluro ac enghreifftio sut y dylid gwneud hyn, a chynnig cefnogaeth i ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae angen cefnogi a datblygu capasiti cynllunio awdurdodau lleol drwy gynnig arweiniad cenedlaethol ar y broses o symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol.

- *Trefn statudol ar gyfer rheoli'r broses o symud ysgol ar hyd continwwm ieithyddol:* Mae'r *Adroddiad yr adolygiad annibynnol i ail-ddiffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg* yn crybwyll y syniad o'i gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol weithio ar y cyd ag ysgolion er mwyn llunio a chyhoeddi cynllun trawsnewid ysgol (sef cynllun sy'n cwmpasu'r amserlen, strategaeth, a'r dull gweithredu ar gyfer symud o un categori i'r llall dros gyfnod o amser). Gallasai'r Bil osod hyn ar sail statudol, gan egluro sut byddai hyn yn plethu gyda dyletswyddau i lunio CSCA, a hefyd perthynas hyn â materion cyllidebol, cefnogaeth ac ymgynghori (gweler isod).

- *Pŵer i weinidogion ddarparu cyllid a chefnogaeth benodol i ysgolion mewn cyfnod trosiannol (symud categori):* Er enghraifft, gallai'r drefn statudol ar gyfer symud ysgol ar hyd continwwm ieithyddol gynnwys cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i gymeradwyo cynllun trawsnewid ysgol. Gallai hyn wedyn arwain at gefnogaeth ariannol bwrpasol ac adnoddau penodol, gan gynnwys hyfforddiant staff ac ati. Gallasai hyn, er enghraifft, arwain at ddefnydd llawer mwy strategol o gyllid y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg.

- *Diwygio prosesau ymgynghori 'newid a reoleiddir':* Mae angen diwygio gofynion adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ogystal â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion er mwyn galluogi a hwyluso'r broses o symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol. Mae'n briodol bod proses o ymgynghori ar y bwriad i symud ysgol ar hyd y continwwm, ond nid yw'n glir bod y fframwaith 'newid a reoleiddir' mewn perthynas â chyfrwng iaith ysgolion (gweler tabl 1 o baragraff 7, neu dabl 2 o baragraff 8 yn Atodlen 2 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013) yn addas bellach. Un opsiwn fyddai ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori unwaith ar gychwyn proses symud ysgol ar hyd continwwm ieithyddol (a hynny ar sail cynllun trawsnewid ysgol), yn hytrach na sawl gwaith ar hyd y daith.

- *Pŵer i weinidogion Cymru a/neu awdurdodau lleol ofyn i ysgolion gyflwyno newidiadau i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog:* Mae'n amlwg bod angen i'r broses o symud ysgol ar hyd continwwm ddigwydd ar sail cefnogaeth ysgolion, ac yn bwysicach y rhieni a'r disgyblion. Ond efallai bod angen darparu'r disgresiwn hwn i weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol rhag ofn na fydd ysgolion yn ymateb i alw ymysg rhieni a disgyblion.

4. **Gosod mecanwaith deddfwriaethol ar gyfer codi safonau mewn ysgolion cyfrwng Saesneg dros gyfnod o amser:** Mae angen strategaeth eglur ar gyfer cymell rhagor o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng

Saesneg. Nid yw'r cwricwlwm fel mae'n sefyll yn cyfateb i'r bwriad i ddiddymu Cymraeg ail iaith, ac i gyflwyno un continwwm ar gyfer addysgu'r Gymraeg. Gallai'r Bil arfaethedig fynd i'r afael â'r diffygion hyn drwy:

- *Datblygu un continwwm iaith Gymraeg ar gyfer mapio, disgrifio ac asesu sgiliau iaith Gymraeg disgyblion:* Byddai'r continwwm hwn yn berthnasol i agweddau eraill o'r strategaeth yn ogystal, gan gynnwys hwyluso cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y sector statudol, a mesur cyrhaeddiad disgyblion yn fwy cyffredinol

- *Ar sail y continwwm iaith Gymraeg, rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu disgwyliadau a deilliannau cyflawni eglur a manwl ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg:* Byddai hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i godi'r disgwyliadau dros gyfnod hwy o amser, a hynny wrth weithio tuag at dargedau Cymraeg 2050.

- *Rhoi pŵer i Weinidogion gyhoeddi canllawiau statudol ynghylch datblygu cwricwlwm y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg:* Byddai'r canllawiau i bob pwrpas yn cynnig cyfarwyddyd i ysgolion ynghylch sut mae datblygu cwricwlwm sy'n debygol o fodloni'r disgwyliadau sydd wedi eu gosod o safbwynt y Gymraeg. Gall hyn gynnwys amser yn y cwricwlwm sy'n cael ei neilltuo i'r Gymraeg, defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm, y broses o ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog, a materion yn ymwneud â defnydd y Gymraeg y tu hwnt i'r cwricwlwm.

- *Codi statws y Gymraeg fel rhan allweddol o waith hunanwerthuso ysgolion a gwaith arolygu a monitro allanol*.

5. **Cryfhau sail statudol cynllunio gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog:** Mae sicrhau cynnydd sylweddol yng nghyfran y gweithlu addysg sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwbl allweddol i weddill y strategaeth. Rydym yn falch o weld bod y Llywodraeth yn ddiweddar wedi cyhoeddi *Y Gymraeg mewn Addysg: cynllun y gweithlu.* Er bod cyhoeddi'r cynllun hwn yn gam pwysig i'r cyfeiriad cywir, rydym o'r farn y bydd rhaid mynd ymhellach os am gyflawni targedau addysg Cymraeg 2050. Mae cyflwyno Bil Addysg Gymraeg yn gyfle amlwg i ystyried cyflwyno newidiadau deddfwriaethol er mwyn cefnogi'r gwaith hwn. Un rhan o hyn efallai fyddai rhoi sail statudol i'r cynllun gweithlu, a gofynion penodol o fewn hynny i Weinidogion Cymru fodelu'n fanwl yr angen am athrawon cyfrwng Cymraeg ac i adrodd yn ôl yn gyson ar gyflawniad yn erbyn y targedau hyn.

   Yn y tymor hwy mae'n anorfod y bydd rhaid i Lywodraeth Cymru integreiddio hyfforddiant iaith Gymraeg fel rhan annatod o broses hyfforddi a chymhwyso fel athro i ran helaethaf hyfforddeion Cymru. Un rhan o hyn fydd gosod mewn deddfwriaeth fecanwaith ar gyfer codi disgwyliadau a gofynion ieithyddol

athrawon dros gyfnod o amser. Y rhan arall allweddol fydd cynllunio’r ddarpariaeth hyfforddiant iaith hwn yn effeithiol. Un ffordd o gyflawni hyn fyddai manteisio ymhellach ar arbenigedd sefydliadau fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn cynllunio darpariaeth addysg ôl-orfodol a hyfforddiant ieithyddol. Bydd rhaid integreiddio egwyddorion rhaglenni presennol megis Cymraeg Gwaith a’r Cynllun Sabothol, i mewn i'r hyfforddiant o'r cychwyn. Mae potensial yma y tu hwnt i gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon, gan ffocysu ar feysydd blaenoriaeth eraill, er enghraifft gofal plant, anghenion dysgu ychwanegol, ac elfennau o ofal ac iechyd. Mae cyfle yma felly i Gymru arloesi drwy ddatblygu arbenigedd mewn creu gweithlu addysg ddwyieithog a phedagogeg addysg/hyfforddiant ddwyieithog.